# Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer y blynyddoedd rhwng 2025 a 2027. Mae'r cynllun wedi'i ddiweddaru i fynd i'r afael â'r heriau ariannol y mae'r sector cyhoeddus yn eu hwynebu yn well.   Mae'n canolbwyntio ar gynnal sefydlogrwydd ariannol y Cyngor, sy'n hanfodol i ni allu parhau i ddarparu gwasanaethau i gymunedau a chyflawni ein Hamcanion Lles dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English. Mae croeso i chi gael y ddogfen hon mewn print bras, fersiwn sain a braille. Cysylltwch â'r Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol am ragor o wybodaeth (mae'r manylion cyswllt i'w gweld ar y dudalen nesaf).**



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Conwy - Sir flaengar sy'n creu cyfleoedd**

**Conwy - a progressive County creating opportunity**

## Rydym eisiau clywed eich barn chi!

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth gyfoethog Conwy ac yn credu ei bod yn hanfodol clywed a chydnabod llais pawb. Hoffem glywed gennych chi am yr hyn sy'n effeithio arnoch chi. Ydi ein nodau hirdymor yn addas ar gyfer eich cymuned chi, ac ydym ni'n gwneud y pethau iawn? I gael rhagor o wybodaeth neu i rannu eich barn am unrhyw beth yn ein Cynllun Corfforaethol, cysylltwch â ni.

**Dros e-bost:** sgwrsysir@conwy.gov.uk

**Dros y ffôn:** 01492 57 4000

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome telephone calls in English and Welsh.

Gall cwsmeriaid Gwasanaeth BT Relay sydd â nam ar eu clyw neu eu lleferydd gysylltu ag unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor drwy ddeialu **18001** cyn y rhif y maent ei angen.

**Drwy Iaith Arwyddion:** Gall defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain gysylltu â ni'n defnyddio dehonglydd Iaith Arwyddion drwy'r Gwasanaeth *InterpretersLive!* sy'n cael ei gynnig gan *Sign Solutions* – ewch i www.conwy.gov.uk/arwyddio

**Drwy'r post:** Gwasanaeth Pobl a Pherfformiad
Tîm Perfformiad a Gwella
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Blwch Post 1
Bae Colwyn
LL29 0GG

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith na'r llall.

## Pobl Ifanc

Pobl ifanc yw ein dyfodol ac fe hoffem glywed eich barn chi. Mae'r gwasanaethau sy'n gweithio gyda phobl ifanc eisiau gwrando a rhoi cyfle i chi leisio'ch barn. Mae Cyngor Ieuenctid Conwy yn rhoi llais a dewis i chi yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi.

Os hoffech chi gymryd rhan, ewch i dudalen Facebook y Cyngor Ieuenctid neu i wefan y Gwasanaeth Ieuenctid , neu cysylltwch â ni:

**Dros e-bost:** gwasanaethieuenctid@conwy.gov.uk

**Dros y ffôn:** 01492 575100

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome telephone calls in English and Welsh.

Gall cwsmeriaid Gwasanaeth BT Relay sydd â nam ar eu clyw neu eu lleferydd gysylltu ag unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor drwy ddeialu **18001** cyn y rhif y maent ei angen.

**Drwy Facebook ac Instagram:** @GIConwyYS

## I gael y wybodaeth ddiweddaraf:

Hoffwch ni ar Facebook

Ewch i'n gwefan i gael gwybodaeth am y Cynllun Corfforaethol

Ewch i'n tudalen gwe 'Dweud eich dweud'

Cofrestrwch i greu cyfrif ar Fy Nghonwy er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf sydd fwyaf perthnasol i chi, yn ogystal â llunio a rheoli eich ceisiadau gwasanaeth ar lein.

# Cynnwys

1. Cyflwyniad a Chyd-destun Ariannol .....5

2. Sut y Datblygwyd y Cynllun Hwn .....6

2.1. Beth sy'n wahanol yn y fersiwn hwn o'r Cynllun? .....7

3. Datganiad Lles .....8

3.1. Monitro Cynnydd .....9

3.2. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb .....10

3.3. Strategaeth Ariannol .....10

4. Egwyddorion Darparu .....12

4.1. Yr Iaith Gymraeg .....12

4.2. Amrywiaeth, Tegwch a Chynhwysiant .....13

4.3. Cydweithio gyda Chymunedau .....13

4.4. Ein Gweledigaeth – Sir Flaengar sy'n Creu Cyfleoedd .....14

4.5. Ein Gwerthoedd .....14

Nod Hirdymor 1: Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn wydn .....16

Nod Hirdymor 2: Mae pobl yng Nghonwy yn gwerthfawrogi ac yn edrych ar ôl yr amgylchedd .....18

Nod Hirdymor 3: Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir sy'n ffynnu, sydd â llai o dlodi ac sy'n cefnogi dysgu a sgiliau .....20

Nod Hirdymor 4: Mae gan bobl yng Nghonwy fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy'n gwella safon eu bywyd .....22

Nod Hirdymor 5: Mae gan bobl Conwy iechyd a lles da ac maent yn teimlo'n ddiogel .....24

# 1. Cyflwyniad a Chyd-destun Ariannol

Ein Cynllun Corfforaethol sy’n amlinellu ein trywydd.  Mae’n disgrifio’r nodau hirdymor sy’n bwysig yn ôl ein cymunedau ac yn gosod ein cyfeiriad strategol fel sefydliad dros gyfnod o 5 mlynedd. Mae’r cynllun yn helpu’r Cyngor i benderfynu sut i wario arian, pa brosiectau i ganolbwyntio arnynt a sut i wella ein gwasanaethau i drigolion. Mae’n ffordd o sicrhau bod pawb yn deall yr hyn y mae angen ei wneud er mwyn i’n cymunedau fod yn lleoedd gwell i fyw.

Mae’r Cynllun Corfforaethol yn ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a’r Nodau Lles cenedlaethol. Wrth ddatblygu ein nodau ein hunain, bu i ni roi ystyriaeth i’r Nodau Cenedlaethol hyn, asesiad o Les yn ein Sir, yn ogystal ag amcanion ein partneriaid. Yn sail iddo hefyd mae llu o gynlluniau a strategaethau gwasanaeth ategol sy’n cyfleu manylion gweithredol yr hyn rydym yn ei gyflawni o ddydd i ddydd. Nid casgliad o bopeth rydym yn ei wneud fel Cyngor yw’r Cynllun Corfforaethol. Yn hytrach, dylid ei ystyried yn rhestr faith o’r tasgau y mae angen i ni ymgymryd â nhw er mwyn gwella, sy’n ein helpu i gadw trefn ar bopeth a symud i’r cyfeiriad cywir.

Mae Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027 yn cydnabod y bydd cyfnodau anodd o’n blaenau, ac y bydd ein nodau (neu ‘ganlyniadau'r dinesydd’) yn cael eu hadolygu’n rheolaidd yn sgil cynnydd mewn costau a’r galw am wasanaethau sy’n wynebu pob Cyngor. Mae’r pwysau hyn wedi’u sbarduno gan yr argyfwng costau byw, prisiau tanwydd ac ynni, cynnydd mewn cyfraddau llog ac effaith barhaus y pandemig.

Rydym bellach yn cyflwyno ein Cynllun Corfforaethol diwygiedig ar gyfer y cyfnod rhwng 2025 a 2027. Er ein bod wedi gwneud newidiadau i adlewyrchu ein cyllidebau llai, mae’r cynllun hwn yn parhau i adlewyrchu ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau o’r radd flaenaf i’r rheiny sydd eu hangen fwyaf, ac i gynnig cefnogaeth i’n cymuned, er gwaetha’r pwysau economaidd sy’n ein hwynebu.  Rydym wedi adolygu ein nodau’n ofalus i sicrhau ein bod yn parhau i ddiwallu anghenion ein trigolion mwyaf diamddiffyn, a hynny gan gynnal cyfrifoldeb ariannol ar yr un pryd.

Mae ein cynllun diwygiedig yn rhoi gwytnwch ariannol wrth wraidd popeth ac yn amlinellu llwybr clir ymlaen, gan ganolbwyntio ar arloesi, effeithlonrwydd a chydweithio i oroesi’r cyfnod heriol hwn ac er mwyn i ni allu meithrin dyfodol cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.  Fodd bynnag, gyda thua 70% o’n cyllid yn dod o ffynonellau allanol, nid yw ein gwytnwch ariannol yn llwyr o fewn ein rheolaeth, ac mae’n bosib y bydd angen i ni wneud

penderfyniadau anodd iawn a blaenoriaethu rhai meysydd dros eraill, hyd yn oed yn ystod cyfnod y cynllun diwygiedig hwn.

Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng y gwasanaethau rydym yn eu darparu drwy ein cyllideb flynyddol a'r gwasanaethau hynny sy'n cael eu hariannu drwy grantiau allanol. Mae 'gwasanaethau craidd' fel rheoli gwastraff, gofal cymdeithasol ac addysg (ar y cyfan) yn cael eu hariannu o gyllideb flynyddol y Cyngor. Fodd bynnag, mae rhai gwasanaethau craidd a gwasanaethau fel cymorth ariannol i fusnesau lleol yn dibynnu'n helaeth ar grantiau allanol, fel y rhai sy'n disodli grantiau Cronfa Ffyniant Gyffredin a Ffyniant Bro Llywodraeth y DU. Yn yr un modd, mae prosiectau adeiladu mawr fel codi ysgolion newydd a chynlluniau amddiffyn rhag llifogydd angen cyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r grantiau sydd ar gael yn effeithio'r cymorth y gallwn ei gynnig mewn rhai meysydd, ac yn anffodus, mae wedi arwain at oedi sawl prosiect allweddol. Byddwn yn parhau i gydweithio â Llywodraethau Cymru a'r DU pan fo'n bosib, i sicrhau bod Conwy'n elwa ar unrhyw gyllid allanol sydd ar gael.

## 2. Sut y Datblygwyd y Cynllun Hwn

Mae'r Cynllun Corfforaethol wedi cael ei ddatblygu o ganlyniad i sgwrs barhaus gyda'r cymunedau. Yn 2016, bu i ni lansio "Sgwrs y Sir" er mwyn casglu barn mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau ymgysylltu ac ymgynghori. Dros y blynyddoedd, rydym wedi cynnal digwyddiadau ymgysylltu rheolaidd ar amrywiaeth o bynciau a datblygiadau gwasanaeth, er mwyn cynnwys ein cymunedau wrth lunio ein datblygiadau. Yn sgil cyfyngiadau Covid-19, ym mis Medi 2021 bu'n rhaid i ni addasu ein dull o ymgynghori a chynnal cyfres o weithdai ar-lein i drafod syniadau ar gyfer y Cynllun Corfforaethol yn benodol. Bu i ni gynnal trafodaeth ryngweithiol ranbarthol gyda thimau Cydlyniant Rhanbarthol y Gogledd Orllewin a'r Gogledd Ddwyrain a Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, dan y teitl 'Lleisiau Cymunedol'. Nod y sesiwn hon oedd ymgysylltu â phobl lle gallai iaith, diwylliant, neu wahaniaethau cymdeithasol neu gorfforol achosi rhwystrau i gael eu clywed yn effeithiol, ac mae wedi llunio rhan o Asesiad Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych, sydd wedi llywio'r cynllun hwn. Bu i 43 o gynrychiolwyr o grwpiau na chlywir ganddynt yn aml gymryd rhan yn y drafodaeth hon. Bu i ni hefyd gysylltu â grwpiau a rhwydweithiau lleol sy'n arbenigo mewn cefnogi pobl gyda nam ar y synhwyrau, er mwyn sicrhau bod eu lleisiau nhw'n cael eu cynnwys, yn ogystal â chydweithio â fforwm ieuenctid lleol i geisio eu barn. Yn ogystal â'r sesiynau hyn, bu i ni gynnal arolwg i geisio barn pobl.

Aethom ati i fyfyrio ar yr holl adborth hwn er mwyn datblygu ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer y cyfnod rhwng 2022 a 2027. Cafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Mawrth 2022 fel drafft ar gyfer ymgynghoriad ehangach gyda'r cymunedau ac aelodau etholedig newydd. Yna, diwygiwyd y cynllun drafft yn unol ag adborth pellach gan y gymuned a'r aelodau etholedig, cyn cael ei gymeradwyo'n derfynol gan y Cyngor ym mis Hydref 2022. Cytunwyd y byddai'n cael ei adolygu drwy gydol y pum mlynedd er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn meysydd ffocws a'r sefyllfa ariannol.

Fodd bynnag, gan fod amgylchedd ariannol y sector cyhoeddus wedi gwaethygu, cynhaliwyd trafodaethau unwaith eto gyda'r uwch reolwyr a'r Cynghorwyr yn 2024 er mwyn ad-drefnu ein Cynllun Corfforaethol, gan ganolbwyntio ar yr uchelgeisiau hynny sy'n parhau i fod yn bwysig i'n cymunedau. Canlyniad hyn oedd cwtogi'r naw o nodau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd i bump, gan greu gwell cydberthynas rhwng y canlyniadau a ddymunir ac ategu ambell i egwyddor sylfaenol allweddol o ran ein ffyrdd o weithio fel Cyngor.

Rydym yn awyddus i barhau â'r drafodaeth hon a hoffem glywed eich syniadau chi am sut y gellir gwella'r gwasanaethau. Byddwn yn parhau i ddefnyddio [Sgwrs y Sir] fel ffordd i chi rannu syniadau, a byddwn yn parhau i wahodd barn y gymuned ar ddatblygiadau i'r gwasanaethau. Byddem yn falch o glywed eich sylwadau neu awgrymiadau am welliannau unrhyw adeg o'r flwyddyn, felly mae croeso i chi gysylltu â ni.

## 2.1. Beth sy'n wahanol yn y fersiwn hwn o'r Cynllun?

Rydym wedi ad-drefnu nifer y nodau sydd yn y cynllun hwn i bump, gan gydnabod bod y naw a nodwyd yn flaenorol yn uchelgeisiol iawn ac yn rhy eang eu ffocws. Fodd bynnag, nid yw'r ddogfen hon yn wyriad dramatig o'r Amcanion Lles a bennwyd yn 2022, a dylid ystyried ei fod yn mireinio'r hyn rydym ni eisoes wedi'i ddweud y byddem yn ceisio ei ddarparu. Yn y bôn, rydym wedi ceisio cryfhau'r cynllun fel dogfen strategol lefel uchel, gan gymryd cam yn ôl o'r manylion gor-weithredol. Rydym hefyd wedi cymryd gofal i adolygu geiriad ein hymrwymiadau er mwyn eu gwneud yn fwy cyfoes, gan fod yn ochelgar iawn o newid posib yn y dyfodol yn sgil pwysau cyllidebol. Mae'n gydbwysedd anodd ei gyrraedd gan fod angen cadw llygad ar yr hyn sydd wir yn bwysig o hyd, ond gobeithio bod y ddogfen hon yn cyflawni hynny.

Rydym wedi cadw ein canlyniadau hirdymor o ran yr amgylchedd a thai. Rydym hefyd wedi cadw ein ffocws ar ffyniant economaidd ac addysg; ond gan gydnabod y

gydberthynas gref rhwng y ddau faes gwaith pwysig hyn, rydym wedi eu huno dan un thema. Yn yr un modd, rydym wedi cadw ein huchelgais ar gyfer Conwy iach; ond, unwaith eto, gan gydnabod y gydberthynas amlwg rhyngddynt, rydym wedi cynnwys y gwaith pwysig rydym yn ei wneud i hyrwyddo diogelwch a diogelu a oedd gynt yn ganlyniadau ar wahân. Ein canlyniad mewn perthynas â gwytnwch sydd wedi newid fwyaf, gyda mwy o ffocws ar yr heriau ariannol rydym yn eu hwynebu fel sefydliad. Mae'r canlyniad hwn hefyd wedi'i ddyrchafu er mwyn pwysleisio ei bwysigrwydd, gan gydnabod bod rhaid i ni wneud pethau'n iawn er mwyn gallu cyflawni ein hymrwymiadau dan y pedwar nod arall. Yn olaf, rydym wedi penderfynu nad yw'n briodol bellach i ni drin y Gymraeg ac Amrywiaeth, Tegwch a Chynhwysiant fel canlyniadau gyda chyfyngiad amser. O ddyrchafu'r rhain i fod yn egwyddorion sylfaenol rydym yn gweithio tuag atynt, gyda'u strategaethau a'u mecanweithiau adrodd eu hunain yn sylfaen iddynt, dylem allu codi proffil y ddau fater pwysig hyn, nad ydynt bellach yn cael eu trin ar eu pen eu hunain. Rydym hefyd wedi cynnwys ein ffordd o weithio gyda'n cymunedau fel egwyddor a ddylai fod yn sylfaen i bopeth a wnawn.

## 3. Datganiad Lles

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru wedi creu cyfres o ganlyniadau cenedlaethol a gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i roi datblygu cynaliadwy wrth wraidd eu penderfyniadau. Dylai ystyried effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ein penderfyniadau fod yn egwyddor ganolog i'n sefydliad. Mae'r nodau a gyhoeddwyd o fewn y Cynllun Corfforaethol hwn yn adlewyrchu rhwymedigaeth y Cyngor dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i gyhoeddi Amcanion Lles.

Bydd ein Hamcanion Lles yn cyfrannu at gyflawniad pob un o Nodau Lles Llywodraeth Cymru. Drwy ddatblygu ein hymrwymiadau o fewn y cynllun, rydym wedi myfyrio ar y pum ffordd o weithio, gan ganolbwyntio ar atal, effaith tymor hwy, integreiddio ag amcanion partner, cydweithio a chynnwys ein cymunedau. Roedd y cymunedau'n rhan fawr o ddatblygu canlyniadau'r dinesydd, a bydd y Cyngor yn parhau i gynnwys cymunedau yn y dyfodol, er mwyn meithrin ymdeimlad o berchenogaeth am ein nodau sy'n canolbwyntio ar y dinasyddion.

Rhaid peidio ag ystyried ein Hamcanion Lles ar eu pennau eu hunain, gan fod angen ystyried themâu trawsbynciol. Golyga hyn ei bod yn bwysig i ni asesu ein camau

gweithredu a'n penderfyniadau er mwyn sicrhau eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar faterion fel trechu tlodi, amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant (DEI), a hyrwyddo'r Gymraeg. Ni ellir crynhoi tlodi a DEI mewn un neu ddau o gamau gweithredu neu fesurau yn unig, a bwriad y nodau a ddewiswyd ar y cyd yw ceisio cael effaith gadarnhaol ar fynd i'r afael â'r meysydd hanfodol hyn drwy wella addysg, tai, iechyd, diogelwch, cyfleoedd gwaith, effaith amgylcheddol, lles a theimlad o degwch a pherthyn.

Bwriedir i'r nodau a amlinellir yn y Cynllun Corfforaethol fod yn rai hirdymor, ac ni fyddant i gyd yn cael eu cyflawni o fewn cyfnod y cynllun. Nid ydynt chwaith yn bethau sy'n gyfan gwbl o fewn ein rheolaeth, ac ni allwn eu cyflawni ar ein pennau ein hunain. Er hynny, ein gobaith yw cyflawni gwelliant yn y meysydd pwysig hyn yn ystod gweinyddiaeth bresennol y Cyngor, sy'n dod i ben yn 2027. Byddwn yn adolygu ymrwymiadau ein Cynllun Corfforaethol a'n cynnydd bob blwyddyn drwy gyfrwng ein proses Hunanasesu. Bydd unrhyw newidiadau'n cael eu cynnwys yn ein hadroddiadau diwedd chwe mis.

## 3.1. Monitro Cynnydd

Fel y nodwyd, mae ein cynlluniau gwasanaeth a sawl strategaeth allweddol yn sail i'r Cynllun Corfforaethol, ac mae'r rhain yn bwydo i fframwaith perfformiad y Cynllun. Mae'r fframwaith yn dethol o'r cynlluniau a'r strategaethau hyn y mesurau perfformiad a'r gweithgareddau sy'n crynhoi orau ein cyfraniad i'r Cynllun Corfforaethol a chyflawniad yr ymrwymiadau rydym wedi'u gwneud o'i fewn. O'u hystyried yn eu cyfanrwydd, dylai'r cynnydd y byddwn yn ei ddangos o'i gymharu â'r mesurau hyn a'r buddion y byddwn yn eu darparu o'n gweithgarwch ategol, ddangos cyfraniad y Cyngor tuag at gyflawni'r nodau hirdymor rydym wedi'u gosod. Unwaith eto, rhaid pwysleisio na allwn gyflawni'r nodau ar ein pennau ein hunain ac rydym yn egluro na fydd y nodau hirdymor hyn o reidrwydd yn cael eu cyflawni o fewn oes un Cynllun Corfforaethol.

Byddwn yn adolygu ac yn asesu ein perfformiad yn erbyn y Cynllun Corfforaethol bob chwe mis drwy ein hadroddiadau Hunanasesu Perfformiad, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Bydd yr adroddiadau Hunanasesu yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd i'r Uwch Dîm Rheoli, y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a'r Cabinet, ac yn flynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac i'r Cyngor i'w cymeradwyo. Byddant yn cael eu cyhoeddi ar [www.conwy.gov.uk/perfformiad](www.conwy.gov.uk/perfformiad) cyn gynted ag y bo'n bosib.

Byddwn hefyd yn cynnal adolygiad perfformiad blynyddol o ddarpariaeth y gwasanaethau o'i gymharu â'r cynllun, gan geisio cynnig cymorth a her, ac yn asesu ein cynnydd o ran

cyflawni'r Amcanion Lles, blaenoriaethau'r gwasanaethau, y risgiau allweddol, y mesurau perfformiad, ein cyflawniadau a'r meysydd y mae angen eu gwella.

Mae dyletswydd arnom hefyd i ymgynghori ag amrywiaeth o bobl (ymgyngoreion statudol) bob blwyddyn ariannol i drafod sut rydym wedi bodloni ein gofynion perfformiad. Rydym yn awyddus i sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei chyfleu yn ein fframwaith wrth symud ymlaen.

## 3.2. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Dyletswyddau Statudol (Cymru) 2011, mae gan y Cyngor Gynllun Cydraddoldeb Strategol (o'r enw 'Conwy Gynhwysol'), Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Pholisi Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb. Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y Cynllun Corfforaethol hwn (gan gynnwys y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a gofynion asesu effaith integredig eraill). Yn ogystal â hynny, mae sgriniad Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb neu Asesiadau llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael eu cynnal ar gamau gweithredu o fewn y Cynllun lle bo'n briodol.

## 3.3. Strategaeth Ariannol

Mae ein Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) yn nodi'r dull strategol o reoli ein cyllid ac yn ceisio rhagweld rhai o'r problemau ariannol y byddwn yn eu hwynebu dros gyfnod pum mlynedd y weinyddiaeth wleidyddol. O gofio'r hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae'n debygol iawn y bydd rhagolygon o'r fath yn amrywio.

Nod y SATC yw darparu strategaeth ariannol i gefnogi ystyriaethau cynllunio ar gyfer y tymor canolig. Mae angen gwneud hyn er mwyn sicrhau bod y gyllideb yn paratoi'r Cyngor ar gyfer y cyfnod sydd i ddod yn hytrach na dim ond ceisio cydbwyso'r problemau flwyddyn ar y tro.

Ni all y SATC fodoli ar ei phen ei hun. Mae costau'r Cyngor yn seiliedig ar amrywiaeth o ofynion darparu gwasanaeth a chyfrifoldebau statudol sydd angen adnoddau ac y mae'n rhaid eu cyflawni, sy'n seiliedig ar anghenion demograffig y sir. Felly, mae cysylltiadau cryf rhwng y SATC a chyfeiriad strategol y Cyngor fel yr amlinellir yn y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027.

Bydd yr elfennau allweddol sy’n llunio’r SATC yn cael eu hadolygu’n flynyddol. Mae’r SATC yn adnodd allweddol ar gyfer rheolaeth ariannol ragweithiol, a bydd yn sail ar gyfer y broses bennu cyllideb flynyddol er mwyn sicrhau bod anghenion adnoddau’r Cyngor yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau cywir, a’u bod yn caniatáu i ofynion a materion cyllido a ragwelir yn y dyfodol gael eu clustnodi ddigon ymlaen llaw er mwyn cymryd camau priodol.

Mae’r goblygiadau o ran adnoddau sy’n sail i’r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys mewnbwn sy’n amrywio o gapasiti swyddogion i geisio cyllid allanol sylweddol i helpu cyflawni canlyniadau’r dinesydd dros gyfnod y cynllun. Nid yw’r Cynllun Corfforaethol yn golygu y byddwn yn symud cyllid oddi wrth ein cyfrifoldebau cyfreithiol i ganolbwyntio ar ganlyniadau’r cynllun yn unig. Rhaid ystyried pob blaenoriaeth ar sail yr adnoddau sydd ar gael i ni a’r ffaith anochel na fydd ein gallu i wario yn cyd-fynd â’n dyhead i fod yn uchelgeisiol a gwella.

# 4. Egwyddorion Darparu

Yn ogystal ag ystyried popeth a wnawn yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, bydd egwyddorion a gwerthoedd allweddol sy'n gwella ein darpariaeth yn sail i'n Cynllun Corfforaethol. O'u cyfuno â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio, bydd yr egwyddorion a'r gwerthoedd hyn yn cefnogi'r ethos rydym yn falch ohoni a'n gweledigaeth o Gonwy fel **sir flaengar sy'n creu cyfleoedd**.

## 4.1. Yr Iaith Gymraeg

Mae'r Gymraeg yn rhan ohonom ac o bopeth a wnawn. Ein hiaith ni yw hi ac mae'n perthyn i bawb ohonom. Mae'n rhan o'n hanes, ein treftadaeth a'n diwylliant. Mewn cyfnod lle rydym i gyd yn wynebu llawer o heriau, fe all dathlu ac annog ein Llais Cymraeg ddod â ni ynghyd. Hoffem i bawb ymuno â ni, waeth faint o Gymraeg sydd gennych chi, o le rydych chi'n dod na lle rydych chi bellach yn byw yn sir Conwy.

Ein gweledigaeth yw Conwy ddwyieithog lle mae pobl yn hyderus ac yn falch o'u llais Cymraeg, lle caiff y Gymraeg ei siarad o fewn y teulu, y gymuned a'r gweithle, lle caiff diwylliant Cymru ei ddathlu a lle mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn.

Ein nod yw gosod esiampl o ran defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ac wrth ddarparu ein gwasanaethau. Mae hyrwyddo'r Gymraeg hefyd yn ymwneud â'r teulu, y gymuned, ysgolion, busnesau, twristiaeth ac yn fwy na dim, mae'n ymwneud â phobl. Rhywbeth sy'n perthyn i bobl yw iaith, a nod y cynllun hwn yw helpu pobl i feithrin dealltwriaeth, ewyllys da a chariad, gobeithio, tuag at y Gymraeg a'i chyfraniad i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Conwy.

Gobeithio y gwnewch chi ymuno â ni ar y daith tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Ydych chi'n un o filiwn? Os ydych chi'n siaradwr Cymraeg sy'n gallu sgwrsio yn Gymraeg ym mhob sefyllfa, rydym eich angen chi hefyd, i gefnogi eraill ac i helpu creu'r cyfleoedd lle gall y Gymraeg ffynnu. Yn ogystal â chynyddu'r nifer o bobl sy'n gallu siarad ychydig o Gymraeg, rydym eisiau i fwy o bobl siarad Cymraeg bob dydd. Rydym yn cefnogi hyn drwy gydweithio â phartneriaid a chlybiau lleol fel Menter Iaith Conwy, Urdd Conwy, Ffermwyr Ifanc, Mudiad Meithrin, Cymraeg i Blant, Coleg Llandrillo a Rhieni dros Addysg Gymraeg, ymysg eraill. Yn ogystal â chynllunwyr, addysgwyr a Chynghorwyr, mae'r rhain yn rhan o Fforwm Strategol y Gymraeg sydd wedi helpu llunio Ein Llais Cymraeg – Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg – a byddant yn ei chefnogi wrth symud

ymlaen. Mae'r her sydd o'n blaenau yn un gyffrous, a thrwy osod gweledigaeth gadarn, rydym yn hyderus y gallwn gydweithio i hyrwyddo'r Gymraeg yn llwyddiannus yma yng Nghonwy. Amdani! .

Ewch draw i dudalen lanio'r Gymraeg ac addysg i gael rhagor o wybodaeth am ein cynlluniau a'n strategaethau ategol, ac i weld pa cymorth sydd ar gael i ddysgu'r iaith.

## 4.2. Amrywiaeth, Tegwch a Chynhwysiant

Hoffem i'r dyfodol newid er gwell, gan greu cymdeithas fwy cynhwysol sy'n mynd ati i hyrwyddo tegwch ac amrywiaeth ac yn mynd i'r afael â gwahaniaethu. Ers ysgrifennu ein Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027, rydym wedi cyhoeddi ein Strategaeth Conwy Gynhwysol newydd. Mae'r ddogfen hon yn nodi ein hamcanion cydraddoldeb statudol ac yn cynrychioli ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024 i 2028. Mae'n canolbwyntio ar bobl a'u profiad bywyd, a waeth beth fo cefndir unigolyn, dylem oll allu byw, gweithio ac ymweld â'n sir a theimlo ein bod yn cael ein croesawu, ein derbyn a'n bod yn perthyn. Drwy ein strategaeth, ein nod yw gwreiddio diwylliant o ymwybyddiaeth a chyfrifoldeb unigol ymysg staff ein bod ni oll yn rhannu cyfrifoldeb i hyrwyddo tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant, waeth beth fo'n cefndir a'n profiad. Rydym eisiau i bob aelod staff ddeall 'nad oes rhaid iddo fod wedi digwydd i chi, i fod o bwys i chi'. Rydym yn gwneud pob ymdrech i wella cyfiawnder, cynwysoldeb, tryloywder, mynediad a thegwch i bawb o ran darpariaeth gwasanaethau a chyflogaeth, a hynny gan sicrhau ein bod yn rheoli ein cyllidebau a'n hadnoddau yn gyfrifol.

Ni allwn gyflawni hyn ar ein pennau ein hunain a byddwn yn parhau i gydweithio â chymunedau, busnesau (gan gynnwys mentrau cymdeithasol) a sefydliadau eraill i greu newid gwirioneddol ac ystyrlon. Rydym wedi manylu ar y camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd dros bedair blynedd y strategaeth. Bydd ein Grŵp Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (a gadeirir gan ein Prif Weithredwr) yn helpu datblygu, monitro ac adrodd ar ein cynnydd.

## 4.3. Cydweithio gyda Chymunedau

Rydym eisiau sicrhau ein bod yn cydweithio'n dda gyda'n cymunedau ym mhopeth a wnawn, a bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Mae'n bwysig i ni bod pobl yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais.

Drwy ein Strategaeth Cynnwys y Gymuned, hoffem feithrin rhwydweithiau cymunedol cadarn, sy’n golygu gweithio gyda’n Cynghorau Tref a Chymuned, sy’n galluogi ein trigolion i chwarae rhan weithgar yn yr hyn sy’n digwydd yn eu cymuned, ac sydd wedi’u seilio ar egwyddorion ymddiriedaeth a pharch at amrywiaeth lleol. Byddwn yn gwneud yn siŵr ein bod yn cadw at egwyddorion ymarfer ymgysylltu a chyfathrebu da, gan sicrhau bod yr iaith a ddefnyddiwn yn glir, yn blaen ac yn hawdd i bawb ei deall bob amser.

Ochr yn ochr â’n proses bresennol o adrodd am gwynion a chanmoliaeth, ein nod yw denu mwy o leisiau cymunedol a gwybodaeth feincnodi er mwyn gallu dod i ddeall sut rydym yn perfformio, dathlu gwasanaeth da, a hefyd cydnabod sefyllfaoedd pan nad ydym wedi gwneud pethau’n iawn, er mwyn gallu dysgu a gwella fel sefydliad.

## 4.4. Ein Gweledigaeth – Sir Flaengar sy’n Creu Cyfleoedd

Mae’r ‘sir’ (y bobl a’r lle) ar flaen ein meddyliau ym mhopeth a wnawn. Ein bwriad o hyd yw gwella’n barhaus, bod yn ddyfeisgar ac ymchwilio i ddulliau newydd â meddwl agored. Rydym yn gwerthfawrogi ein diwylliant, ein treftadaeth a’n hamgylchedd. Rydym yn benderfynol o fod yn Awdurdod dwyieithog sy’n parchu ac yn hyrwyddo’r Gymraeg ac rydym wedi ymrwymo i fod yn sefydliad di-garbon net erbyn 2030.

## 4.5. Ein Gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd wrth wraidd pwy ydym ni, ac yn cynrychioli credoau ein sefydliad. Maent yn llywio’r ffordd rydym yn gweithio, yn ymddwyn ac yn darparu gwasanaethau. Dyma ein gwerthoedd:

1. Rydym yn **ymfalchïo** yn ein gwaith:
    - Rydym yn ymfalchïo'n fawr yn ein cydweithwyr, a thrwy ddull hyfforddi a mentora, rydym yn eu helpu i gyflawni eu potensial.
    - Rydym yn ymfalchïo ym mhobl Conwy, gan geisio darparu gwasanaethau a chyfleoedd sy’n gwella bywydau a lles ein pobl a’n cymunedau.
    - Rydym yn gwerthfawrogi unrhyw heriau ac adborth y tu mewn neu’r tu allan i’r sefydliad, ac yn annog hunan-asesu a myfyrio ynghylch ein gwaith fel cyfle i ddangos ein bod yn poeni ac i wella’r hyn a wnawn.

2. Rydym yn **deg** â phawb:
   - Nid arwyddair y Cyngor yn unig yw Tegwch i Bawb – ond elfen sylfaenol o'n gwaith.
   - Rydym yn croesawu ac yn parchu amrywiaeth.
   - Ac rydym yn gwrando.

3. Rydym yn **arloesol**:
   - Rydym yn arloesi er mwyn gwella'r hyn rydym yn ei wneud a sut rydym yn gwneud hynny.
   - Rydym yn rhoi cynnig ar bethau newydd ac nid oes gennym ofn i bethau fynd o chwith gan ein bod yn cefnogi ein gilydd, yn enwedig os aiff rhywbeth o'i le, gan fod cyfle i ddysgu a gwella ar sail ein profiadau bob amser.
   - Rydym yn croesawu newid, yn hytrach na'i ofni neu ei osgoi, ac nid oes gennym ofn rhoi'r gorau i wneud pethau rydym wedi bod yn eu gwneud yn draddodiadol.

4. Rydym yn **gweithio fel tîm**:
   - Rydym yn gweithio ar y cyd – nid ar wahân.
   - Mae gennym gyfrifoldebau ar y cyd yn ogystal â rhai unigol.
   - Rydym yn helpu ein gilydd i fodloni ein cyfrifoldebau statudol a rheoleiddiol, yn ogystal ag anghenion gwasanaethau.
   - Rydym yn agored i her deg gan gydweithwyr ac yn ymateb i hynny'n gadarnhaol.
   - Fel tîm, rydym yn gryfach gyda'n gilydd.

## Nod Hirdymor 1: Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn wydn

Mae'r heriau ariannol sydd o'n blaenau yn golygu y bydd rhaid i ni wneud penderfyniadau anodd, ac rydym yn sylweddoli pa mor galed fydd hynny. Fe wnawn ni'n gorau i wneud penderfyniadau da a chanfod ffyrdd mwy effeithlon o weithio. Os na wnawn ni flaenoriaethu gwytnwch ariannol, ni fydd y Cyngor yn gallu cynnal y gwasanaethau hanfodol y mae ein cymunedau ac unigolion yn dibynnu arnynt. Bydd ein gallu i gyflawni ein Hamcanion Lles yn dibynnu ar ein llwyddiant yn y maes hwn.

**Sut ddyfodol hoffem ni ei weld:** Bydd y Cyngor yn gynaliadwy ac yn parhau i allu darparu gwasanaethau craidd i fodloni anghenion trigolion ac ymwelwyr.

### I gefnogi'r nod hon, rhwng 2025 a 2027, byddwn yn cyflawni'r camau gweithredu a glustnodwyd yn Strategaeth Gwytnwch Conwy, sy'n cynnwys:

**1.1.** **Rheolaeth Ariannol (gan gynnwys Comisiynu a Chaffael):** Sefydlu prosesau cynllunio ariannol, rheolyddion gwariant a gweithdrefnau cyllidebol cadarn er mwyn bodloni heriau ariannol yn y tymor byr, canolig a hir. Mae hyn yn cynnwys edrych ar wytnwch ysgolion a'r cymorth y maent yn ei dderbyn drwy'r fformiwla gyllido leol. Byddwn yn adolygu'r gwasanaethau rydym yn eu comisiynu ac yn eu caffael yn rheolaidd er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r canlyniad gorau ar gyfer y bobl leol a gwerth am arian.

**1.2.** **Digidol:** Ceisio atebion arloesol a fforddiadwy i drawsnewid gwasanaethau'n ddigidol, fel eu bod yn rhatach i'w rhedeg, yn gyflymach i'w prosesu, neu'n symlach (a hynny gan ofalu peidio ag eithrio unigolion yn ddigidol).

**1.3.** **Asedau:** Sicrhau bod ein portffolio asedau'n gynaliadwy, gan adolygu ein hasedau dros ben er mwyn eu hailddefnyddio neu eu gwaredu.

**1.4.** **Cwsmeriaid a Democratiaeth:** Adolygu ein prosesau busnes er mwyn sicrhau bod y strwythurau darparu yn cael eu symleiddio a'u bod yn briodol ar gyfer anghenion y cwsmeriaid a'r busnes. Mae hyn yn cynnwys edrych ar fodelau darparu gwasanaeth amgen, a chydweithio â mentrau cymdeithasol a grwpiau cymunedol.

1.5. **Y Gweithlu a Deallusrwydd:** Cyflawni'r camau gweithredu a glustnodwyd yn ein Strategaeth Pobl a gweithredu ar wybodaeth gadarn i sicrhau bod gennym ni'r aelodau staff cywir yn y swyddi cywir; ein bod yn gwrando arnynt; ein bod yn cefnogi eu lles; a'u bod yn gallu datblygu'n broffesiynol a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel.

## Bydd ein gwaith ar gyflawni'r ymrwymiadau hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol i ddilyn y Nodau Lles Cenedlaethol canlynol:

1. Cymru lewyrchus
2. Cymru iachach
3. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
4. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

## Nod Hirdymor 2: Mae pobl yng Nghonwy yn gwerthfawrogi ac yn edrych ar ôl yr amgylchedd

Newid Hinsawdd yw'r broblem sy'n diffinio ein cyfnod a dyma'r bygythiad mwyaf i'n lles, yn fyd-eang ac yn lleol. Bydd yn rhoi pwysau ar ecosystemau, isadeiledd a thirwedd ac yn bygwth lles cenedlaethau presennol a rhai'r dyfodol. Byddwn yn arwain drwy esiampl drwy leihau ein hallyriadau carbon a chynyddu ein gwytnwch amgylcheddol i ddelio ag effeithiau Newid Hinsawdd. Byddwn yn cydweithio â thrigolion, cymunedau, partneriaid a busnesau i newid ymddygiad fel bod pawb yn gwneud ei ran.

**Sut ddyfodol hoffem ni ei weld:** Bydd ein gweithredoedd wedi arafu'r newid yn yr hinsawdd ac wedi diogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### I gefnogi'r nod hon, rhwng 2025 a 2027, byddwn yn gwneud y canlynol:

**2.1.** **Argyfwng yr Hinsawdd:** Cyflawni ein Cynllun Sero Net, gan ymateb i'r argyfwng hinsawdd rydym wedi'i ddatgan fel Cyngor.

**2.2.** **Argyfwng Natur:** Cyflawni Cynllun y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau i ymateb i'r Argyfwng Natur, gan gydweithio â phartneriaid gwledig a threfol.

**2.3.** **Atal Llifogydd:** Gweithio i amddiffyn trigolion a chartrefi rhag llifogydd drwy ein Strategaeth Leol Rheoli Risg Llifogydd, a chydweithio â phartneriaid i amddiffyn ein traethlin rhag erydiad.

**2.4.** **Ailgylchu:** Parhau i gyflawni camau gweithredu i gefnogi ailgylchu a strategaeth Llywodraeth Cymru, Tuag at Ddyfodol Diwastraff.

**2.5.** **Ynni Cynaliadwy:** Cefnogi cynlluniau ynni adnewyddadwy a chyflawni ein Cynllun Ynni Ardal Leol.

**2.6.** **Polisïau Cynllunio:** Cefnogi gwytnwch amgylcheddol drwy'r polisïau a'r arferion y byddwn yn eu mabwysiadu dan ein Cynlluniau Datblygu Lleol.

**2.7.** **Cludiant:** Cydweithio â'n partneriaid drwy'r Cynllun Cludiant Rhanbarthol i ddarparu isadeiledd teithio sy'n ddiogel, yn hygyrch ac yn cefnogi lles (mae hyn yn cynnwys Teithio Llesol).

2.8. **Mannau Deniadol:** Byddwn yn gweithio gyda'n cymunedau i ddarparu mannau deniadol, glân a chynaliadwy, gan gyfrannu hefyd at dwristiaeth a lles.

## Bydd ein gwaith ar gyflawni'r ymrwymiadau hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol i ddilyn y Nodau Lles Cenedlaethol canlynol:

1. Cymru lewyrchus
2. Cymru gydnerth
3. Cymru iachach
4. Cymru o gymunedau cydlynus

## Nod Hirdymor 3: Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir sy'n ffynnu, sydd â llai o dlodi ac sy'n cefnogi dysgu a sgiliau

Rydym eisiau i'n heconomi fod yn un hyderus, wydn a chynaliadwy. Mae hyn yn golygu cynnig addysg ragorol, cyfleoedd dysgu gydol oes a'r sgiliau cywir ar gyfer gwaith. Byddwn yn annog syniadau newydd ac yn adfywio ar sail diwylliant. Byddwn yn mynd ati i weithio gyda busnesau, ysgolion, cymunedau, Cynghorau Tref a Chymuned a'r sector creadigol i hyrwyddo amodau y gallant dyfu a ffynnu ynddynt.

**Sut ddyfodol hoffem ni ei weld:** Bydd ein treftadaeth gyfoethog wedi'i diogelu er mwyn cefnogi lles cenedlaethau'r dyfodol. Byddwn wedi llwyddo i gadw talentau sy'n cefnogi twf ac yn rhoi Conwy wrth wraidd Economi Gogledd Cymru. Bydd ein plant yn ddysgwyr uchelgeisiol a medrus. Byddant yn unigolion iach a hyderus sy'n chwarae rhan weithgar yn y gymuned, gyda'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y cyfleoedd swyddi sydd ar gael.

### I gefnogi'r nod hon, rhwng 2025 a 2027, byddwn yn gwneud y canlynol:

**3.1.** **Mynediad at Addysg:** Cyflawni system addysg gwbl gynhwysol lle caiff pob dysgwr gyfle i lwyddo. Byddant yn gallu cael mynediad at addysg sy'n bodloni eu hanghenion ac sy'n eu galluogi i gymryd rhan mewn dysgu, elwa ohono a'i fwynhau.

**3.2.** **Ymgysylltu:** Cyflawni ein Strategaeth Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn parhau i gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, gan gyfrannu hefyd at atal digartrefedd a thlodi.

**3.3.** **Parod am waith:** Sicrhau bod gan bobl ifanc ymwybyddiaeth dda o gyfleoedd cyflogaeth a'r sgiliau priodol i gael mynediad at y byd gwaith.

**3.4.** **Twf Economaidd Lleol:** Cyflawni Strategaeth Twf Economaidd Conwy, gan gynnig cyngor a chymorth i fusnesau lleol, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, sy'n helpu rhoi hwb i'r economi leol a lleihau diweithdra ac anghyfartaledd cymdeithasol. Byddwn hefyd yn gweithio mewn partneriaeth ag Uchelgais Gogledd Cymru i sicrhau bod Bargen Dwf Gogledd Cymru yn cynnig cyfleoedd i Gonwy. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda Phartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru i feithrin twf sgiliau yn ôl yr angen.

**3.5.** **Diwylliant:** Cyflawni Strategaeth Ddiwylliant Creu Conwy.

**3.6.** **Twristiaeth:** Cyflawni ar gamau gweithredu i gefnogi twristiaeth, digwyddiadau a gweithgareddau yng Nghonwy, gan gynnwys ein Cynllun Rheoli Cyrchfan, gan gefnogi twristiaeth barchus sy'n gwarchod ein lleoliadau mwyaf poblogaidd ac yn hyrwyddo pob rhan o'n sir hardd.

**3.7.** **Polisïau Cynllunio:** Cefnogi ffyniant drwy'r polisïau a'r arferion y byddwn yn eu mabwysiadu dan ein Cynlluniau Datblygu Lleol.

**3.8.** **Adfywio:** Gweithio gyda chymunedau lleol i helpu cyflawni Cynlluniau Adfywio a Chreu Lleoedd.

**3.9.** **Buddsoddiad:** Gweithio i fanteisio i'r eithaf ar y grantiau a'r cyfleoedd cyllido sydd ar gael i Gonwy a'i ddinasyddion, gan gefnogi busnesau, adfywio, y celfyddydau, treftadaeth, Sero Net a chymunedau.

**3.10.** **Y Gymraeg:** Cyflwyno ein Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg (CSCA), gan gefnogi targed Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**3.11.** **Cyfleusterau Addysg:** Gwella ansawdd lleoliadau addysg drwy Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

## Bydd ein gwaith ar gyflawni'r ymrwymiadau hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol i ddilyn y Nodau Lles Cenedlaethol canlynol:

1. Cymru lewyrchus
2. Cymru iachach
3. Cymru sy'n fwy cyfartal
4. Cymru o gymunedau cydlynus
5. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
6. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

## Nod Hirdymor 4: Mae gan bobl yng Nghonwy fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy’n gwella safon eu bywyd

Rydym eisiau i’n trigolion gael lle diogel a phriodol i’w alw’n gartref, sy’n cefnogi eu hiechyd a’u lles cadarnhaol.

**Sut ddyfodol hoffem ni ei weld:** Drwy ganolbwyntio ar ddull strategol, byddwn wedi creu cymunedau cynaliadwy y mae’r trigolion yn falch o’u galw’n gartref.

### I gefnogi’r nod hon, rhwng 2025 a 2027, byddwn yn gwneud y canlynol:

**4.1.** **Strategaeth Tai:** Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a chyflwyno ein Strategaeth Tai Lleol.

**4.2.** **Tai Newydd:** Gweithio gyda datblygwyr a phartneriaid (gan gynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig) i ddatblygu’r cymysgedd cywir o dai i fodloni anghenion ein trigolion, wedi’u cefnogi gan y polisïau a’r arferion y byddwn yn eu mabwysiadu dan ein Cynlluniau Datblygu Lleol a’r Cynlluniau Bro.

**4.3.** **Tai Fforddiadwy:** Darparu mwy o dai fforddiadwy i fodloni anghenion ein cymunedau amrywiol.

**4.4.** **Eiddo Gwag:** Rhoi bywyd newydd i eiddo gwag.

**4.5.** **Atal Digartrefedd:** Parhau i weithio mewn partneriaeth i gyflawni ein gwaith pwysig ar atal digartrefedd a helpu’r unigolion hynny sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod pob achos o ddigartrefedd yn brin, yn fyr ac nad yw'n digwydd eto.

**4.6.** **Llety addas:** Sicrhau bod yr unigolion hynny sy’n wynebu rhwystrau yn cael llety mewn tai addas.

**4.7.** **Rhestrau Aros:** Gweithio ar leihau nifer y bobl sy’n aros am dai ar y gofrestr tai cyffredin a Tai Teg.

**4.8.** **Byw’n Annibynnol:** Helpu pobl i fyw’n annibynnol yn eu cartrefi, a chefnogi'r rheiny sydd angen gofal i gael cartref diogel.

**Bydd ein gwaith ar gyflawni'r ymrwymiadau hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol i ddilyn y Nodau Lles Cenedlaethol canlynol:**

1. Cymru lewyrchus
2. Cymru iachach
3. Cymru sy'n fwy cyfartal
4. Cymru o gymunedau cydlynus

## Nod Hirdymor 5: Mae gan bobl Conwy iechyd a lles da ac maent yn teimlo'n ddiogel

Rydym eisiau cefnogi lles ein trigolion, gan hyrwyddo dewisiadau bywyd iach a mynd i'r afael ag effeithiau niweidiol tlodi. Byddwn yn canolbwyntio ein camau gweithredu ar gefnogi cynaliadwyedd y sector gofal ac yn cydweithio â'n partneriaid i ddarparu Gofal Cymdeithasol di-dor o ansawdd dda i'r bobl sydd ei angen. Byddwn yn sicrhau bod trigolion ac ymwelwyr i Gonwy yn ddiogel a bod pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu.

**Sut ddyfodol hoffem ni ei weld:** Rydym eisiau creu amgylchedd lle mae diogelu'n gyfrifoldeb i bawb a lle nad oes unrhyw un yn cael eu niweidio. Byddwn yn galluogi pobl i fyw bywydau hirach, iachach a hapusach. Rydym eisiau i bobl allu gofalu amdanynt eu hunain, gwneud dewisiadau bywyd iach, a byw mor dda ag posib gyda phroblemau iechyd cronig. Byddwn wedi lleihau effeithiau niweidiol tlodi. Drwy gefnogi'r sector gofal, byddwn wedi sicrhau bod y gofal cywir ar gael pan fo'i angen, a'i fod yn bodloni anghenion poblogaeth demograffig newidiol Conwy.

### I gefnogi'r nod hon, rhwng 2025 a 2027, byddwn yn gwneud y canlynol:

**5.1.** **Gofal Cymdeithasol o Ansawdd:** Parhau i weithio gyda'n partneriaid i foderneiddio gofal cymdeithasol ac addysg, gan ddarparu gwasanaethau di-dor o ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion ein demograffig newidiol. Rydym eisiau parhau i ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar, atal a gwaith ailalluogi.

**5.2.** **Diogelu:** Gweithio gyda'n partneriaid lleol a rhanbarthol i ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion rhag niwed, camdriniaeth a chamfanteisio. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant gorfodol i staff.

**5.3.** **Lles:** Darparu mynediad at ddiwylliant a chyfleoedd lles gweithredol sy'n cefnogi iechyd ein trigolion a'n hymwelwyr, ac yn cyfrannu i'r rhaglen atal. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gydag ysgolion a lleoliadau cymunedol i gefnogi iechyd, lles a gwytnwch ein plant, ein pobl ifanc a'n teuluoedd.

**5.4.** **Gofalwyr:** Cefnogi anghenion gofalwyr er mwyn eu galluogi i barhau â'u gwaith pwysig.

**5.5.** **Gwrthdlodi:** Datblygu Strategaeth Gwrthdlodi Conwy, a fydd yn cynnwys codi ymwybyddiaeth am dlodi a chynhwysiad cymdeithasol.

**5.6.** **Diogelwch:** Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi cydlyniant cymunedol a diogelwch cymunedol.

**5.7.** **Gofal Cynaliadwy:** Parhau i weithio gyda'n partneriaid i sicrhau cynaliadwyedd y sector gofal. Mae hyn yn cynnwys grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol.

**5.8.** **Byw â Chymorth:** Datblygu ein hadnoddau mewnol i ddarparu amrywiaeth o ddewisiadau gofal a llety i gefnogi ein dinasyddion yn lleol.

## Bydd ein gwaith ar gyflawni'r ymrwymiadau hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol i ddilyn y Nodau Lles Cenedlaethol canlynol:

1. Cymru iachach
2. Cymru sy'n fwy cyfartal
3. Cymru o gymunedau cydlynus
4. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu